



Gyrfa Cymru
Careers Wales

RHIF COFRESTREDIG: 07442837 (Cymru a Lloegr)

Career Choices Dewis Gyrfa Cyf

Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a
Datganiadau Ariannol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021



CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF
BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

**CYNNWYS Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

	Tudalen
Gwybodaeth am y Cwmni	1
Adroddiad Strategol	2-7
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	8
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynnyddol	13-18
Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	20
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	21-23
Datganiad am Elw neu Golled	24
Datganiad am Elw neu Golled ac Incwm Cynhwysfawr Arall	25
Datganiad am y Sefyllfa Ariannol	26
Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti	28
Datganiad Llif Arian Parod	29
Nodiadau am y Datganiad Llif Arian Parod	30
Nodiadau am y Datganiadau Ariannol	31-69

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF
BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

GWYBODAETH AM Y CWMNI

CYFARWYDDWYR:

Mr I Prys-Jones
Mrs E K Richards
Mr R A Wright
Dr D E Evans-Williams
Yr Athro M Maguire
Miss E Harris
Dr T Begum
Mr D P Hagendyk
Mr R D Thomas
Dr S T Dancey
Ms E J Cassin
Mrs N J Lawrence

YSGRIFENNYDD:

Mr W Piper

SWYDDFA GOFRESTREDIG:

Uned 4 Tŷ Churchill
17 Heol Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

RHIF COFRESTREDIG:

07442837 (Cymru a Lloegr)

ARCHWILWYR:

Archwilydd Cyffredinol Cymru

ADRODDIAD STRATEGOL

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad strategol am y cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

CEFNDIR STATUDOL

Mae Career Choices Dewis Gyrfa Cyf (CCDG), sy'n masnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales, yn is-gwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Gan fasnachu fel Gyrfa Cymru Careers Wales, mae CCDG yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaedd pob oedran annibynnol a diduedd i Gymru. Ffocws CCDG ar gyfer y flwyddyn ariannol hon oedd blwyddyn bontio o weledigaeth y cwmni "Newid Bywydau", sy'n ymgorffori presenoldeb digidol integredig (gyrfacymru.llyw.cymru) a gwasanaeth ffôn sy'n cysylltu â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu Cenedl wirioneddol Ddigidol yn ein model darparu gwasanaethau, ac i geisio datblygu'r weledigaeth strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf 2021-2026.

Mae CCDG yn cyflawni cylch gwaith a bennwyd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ac yn cefnogi amcanion strategol Llywodraeth Cymru fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a pholisïau cysylltiedig Llywodraeth Cymru. Mae gwaith CCDG yn helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau'r genedl ac i gefnogi effeithiolrwydd gwariant ar addysg a hyfforddiant, gan gyfrannu felly at les economaidd a chymdeithasol Cymru.

PRIF AMCANION

Mae penderfyniadau gyrfa ymhlith y penderfyniadau pwysicaf y bydd pobl yn eu gwneud drwy gydol eu bywydau a gall gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaedd helpu i:

- Wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a'r farchnad lafur;
- Gwellu hunanymwybyddiaeth, codi dyheadau unigol a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau effeithiol am eu gyrfaedd;
- Cynyddu mynediad at ddysgu a hyfforddiant a chynyddu'r lefelau cwblhau;
- Cymell pobl i reoli eu gyrfaedd, gwellu sgiliau ymgeisio a chyfweld a bod yn wydn wrth addasu eu cynlluniau pan fydd amgylchiadau'n newid;
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar anghenion grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn cyflogaeth, dysgu neu hyfforddiant a thrwy herio stereoteipio; ac
- Gwellu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y farchnad lafur, er enghraifft, drwy wella'r cydweddiad rhwng y cyflenwad o sgiliau a'r galw amdanynt.

SWYDDOGAETHAU CRAIDD

Swyddogaeth graidd CCDG yw galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaedd a chymorth cysylltiedig drwy gyfweiliadau cyfarwyddyd un i un, gwaith grŵp, mynediad i'r we a gwasanaeth ffôn/linell gymorth ddwyieithog. Rydym yn cynorthwyo cwsmeriaid i ddod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaedd, gan gydnabod nad yw rheoli gyrfa'n golygu dewis galwedigaethol untro mwyach, ond yn hytrach gyfres o gyfnodau pontio gydol oes. Drwy wella cymwyseddau a sgiliau rheoli gyrfa, gall cwsmeriaid bontio yn fwy esmwyth, mwynhau lefel uwch o foddhad gyrfa a chymryd rhan fwy gweithredol yn yr economi. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd pandemig Covid, mae Gyrfa Cymru wedi gorfod ymateb mewn ffordd hyblyg i gefnogi ein cwsmeriaid. Mae'r Canolfannau Gyrfaedd wedi bod ar gau ochr yn ochr ag ysgolion am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ac felly mae ein gwasanaethau wedi bod yn ddigidol yn bennaf eleni.

Diffinnir swyddogaeth graidd CCDG yn y llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi manylion amcanion CCDG. Yn 2020-21 roedd y llythyr cylch gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- casglu a defnyddio gwybodaeth am ddiddordebau a nodau gyrfa unigolion, a defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi'u targedu, perthnasol ac amserol, drwy sianeli sy'n berthnasol ac yn briodol i'w hanghenion unigol;
- cefnogi unigolion i nodi llwybrau dysgu sy'n diwallu eu hanghenion a'u dyheadau ac nad ydynt yn cael eu diffinio gan ffiniau artiffisial rhwng llwybrau academiaidd a galwedigaethol;

- targedu cymorth a gwasanaethau i grwpiau penodol o gwsmeriaid sydd ag anghenion penodol, er enghraifft, y rhai sydd â'r risg uchaf o fod yn NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) neu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd pontio'n llwyddiannus rhwng gweithgareddau dysgu neu rhwng dysgu a gwaith;
- tynnu sylw at wybodaeth am gyfleoedd dysgu a gyrfa sy'n gysylltiedig â sectorau blaenoriaeth a thwrf, twf mewn anghenion ieithyddol dwyieithog, gwneud cysylltiadau â datblygiadau strategol cenedlaethol a chynlluniau economaidd rhanbarthol. Rhoi sylw i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a'r galw yn y dyfodol, fel y'u mynegir mewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol ac yn seiliedig ar wybodaeth leol.

Addysg

Gwnaeth pobl ifanc mewn addysg gymryd rhan mewn



Cyfweliadau wyneb yn wyneb bob blwyddyn



2020-2021

Galwadau ffôn i'n llinell gymorth

32,717



2019-2020

27,187




2020-2021

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF
BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Mae CCDG yn derbyn arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o brosiectau strategol hefyd.

Prosiectau Strategol


1. Lansiwyd Cymru'n Gweithio – Gwasanaeth Cymru'n Gweithio gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ym mis Mai 2019. Drwy'r gwasanaeth hwn mae Gyrfa Cymru'n darparu asesiad gyrfaoedd, gwybodaeth, cyngor, arweiniad, a gwasanaeth cyfeirio i oedolion. Mae'r gwasanaeth newydd yn darparu pwynt mynediad Cymru gyfan ar gyfer cymorth cyflogadwyedd i unigolion 16 oed a throsodd. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith negyddol sylweddol ar nifer y cwsmeriaid sy'n gofyn am gymorth. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn un digidol yn bennaf gydol y flwyddyn oherwydd bod Canolfannau Gyrfaoedd a lleoliadau allgymorth ar gau ar y cyfan.
2. ReAct – Parhaodd y cwmni i ddarparu gwasanaethau diswyddo a chymorth i unigolion sydd wedi cael eu diswyddo neu sydd mewn perygl o golli eu swyddi. Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr cymwys gynyddu eu sgiliau a chael gwarded ar rwystrau i ddysgu neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae Gyrfa Cymru'n asesu anghenion hyfforddi pob ymgeisydd ac yn rhoi cyngor ar gyrsiau hyfforddi a lleoliadau hyfforddi addas.



Prosiectau a Ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop

Derbyniodd CCDG gyllid ar gyfer chwe phrosiect Ewropeaidd (Activate) sy'n cefnogi pobl ifanc 11-19 oed sy'n ymddieithrio o addysg ac sydd mewn perygl o fod yn NEET. Nod y prosiectau yw cynnal ymgysylltiad mewn addysg a darparu opsiynau pellach i oedolion ifanc symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant. Bydd y prosiectau'n:

- Sicrhau bod pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl yn cael eu nodi a'u cefnogi fel eu bod yn llwyddo mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn pontio'n llwyddiannus o addysg ac o fewn y farchnad lafur. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi yn y dyfodol neu dlodi parhaus ymhlith pobl ifanc.
- Sicrhau gwell iechyd a lles i bobl ifanc.
- Meithrin agwedd gadarnhaol at waith a dyheadau uwch i bobl ifanc.



PERFFORMIAD CWMNI 2020-21

Asesir perfformiad cwmnïau'n fewnol ac yn allanol mewn perthynas â thargedau busnes, safonau ansawdd ac iechyd ariannol. Mae perfformiad y cwmni wedi'i lesteirio dros y flwyddyn gan y pandemig, yn enwedig y gwaith wyneb yn wyneb, ond mae'r cwmni wedi parhau i gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid drwy ddarparu drwy sianeli digidol.

Gofynnodd y llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru i Gyrfa Cymru gynnwys dangosyddion perfformiad mesuradwy y gallent eu defnyddio i fonitro effaith y cwmni. Roedd gan y Cynllun ystod eang a rhestr hir o fesurau perfformiad.

Nodir rhai o'r prif dargedau perfformiad isod:

Targed 1: Mae 80% o bobl ifanc yn dweud bod gwelliant yn eu Cymwyseddu Rheoli Gyrfa.

Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021 anfonwyd arolwg ar-lein at bob person ifanc mewn addysg a gafodd gyfweiliad cyfarwyddyd. Ymatebodd 1,995 o bobl ifanc i'r arolwg. Mae'r mesur hwn wedi'i gymryd o'r ymatebion i'r datganiad, "Rwyf wedi paratoi'n well i wneud penderfyniadau am fy opsiynau."

Roedd 88.7% yn Cytuno'n Gryf ac yn Cytuno â'r datganiad.

Targed 2: 85% o bobl ifanc yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

Yn yr un arolwg, roedd 97.6% o bobl ifanc mewn addysg yn 'Cytuno'n Gryf' neu'n 'Cytuno' â'r datganiad "Roeddwn yn fodlon ar y gwasanaeth a gefais gan Gyrfa Cymru".

Targed 3: Bydd llai na 3% o'r rhai sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 yn NEET wrth adael addysg statudol fel y'i mesurir yn yr Arolwg Cyrchfan blyneddol o'r rhai sy'n gadael yr ysgol.

Roedd yn hysbys bod 1.7% (527) o ymadawyr Blwyddyn 11 ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn yr Arolwg Cyrchfannau blyneddol o'r rhai sy'n gadael yr ysgol.

Targed 4: Ni fydd llai na 3% o'r rhai sy'n gadael blwyddyn 11 yn anhysbys wrth adael addysg statudol fel y'i mesurir yn yr Arolwg Cyrchfan blyneddol o'r rhai sy'n gadael yr ysgol.

Roedd 0.9% (263) o'r rhai a adawodd Blwyddyn 11 yn Anhysbys yn yr Arolwg Cyrchfannau blyneddol o'r rhai sy'n gadael yr ysgol.

Targed 5: 85% o gwsmeriaid i ddweud eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant (Cymru'n Gweithio)

Anfonir arolwg ar-lein at holl gwsmeriaid Cymru'n Gweithio sy'n derbyn cyfweiliad cyfarwyddyd. Ymatebodd 1,944 o gwsmeriaid i'r arolwg. Mae un o'r cwestiynau'n gofyn i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad, ""Roeddwn yn fodlon â'r gwasanaeth a gefais gan Gyrfa Cymru." Roedd 98.4% yn Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno â'r datganiad.

PERFFORMIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN

Dangosir y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol ar dudalen 23 ymlaen.

Ar hyn o bryd mae Datganiadau Ariannol CCDG yn dangos bod gan y cwmni gronfeydd wrth gefn negyddol o £42.3 miliwn. Y prif reswm dros y cronfeydd negyddol hyn yw'r diffyg pensiwn net o £47.2 miliwn. Mae'r diffyg yn amcangyfrif o'r diffyg disgwylidig mewn asedau dros rwymedigaethau yn aelodaeth CCDG o gronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol.

Asesir perfformiad CCDG yn fewnol ac yn allanol yn arbennig drwy ei Lythyr Cylch Gwaith a'i Ddogfen Fframwaith y cytunir arnynt yn flynyddol gyda Llywodraeth Cymru. Caiff perfformiad yn erbyn y Llythyr Cylch Gwaith ei fonitro gan Lywodraeth Cymru ac mae CCDG yn darparu adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo yn y broses fonitro hon.

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn caniatáu i CCDG gario drosodd unrhyw falansau arian parod a dynnwyd ond nas gwariwyd o hyd at 3% o'r cyllid incwm y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Yn dilyn ymweliad gan arolygwyr TAW CThEM yn 2018-19, penderfynwyd dosbarthu'r holl incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fel incwm grant. Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa wreiddiol y gyllideb ar gyfer blwyddyn 2020-21:

Eitem	£m
Cytuno ar gyllid incwm Craidd Llywodraeth Cymru a Cymru'n Gweithio	28.0
Cario drosodd a ganiateir - 3%	0.8
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod diwedd blwyddyn	0.8

Y brif ffynhonnell incwm ar gyfer CCDG yw Llywodraeth Cymru ac yn ystod y flwyddyn cyfanswm yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru oedd £27.24 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyllid ychwanegol o £821,000 nad yw wedi'i restru yn y tabl uchod. Oherwydd effaith pandemig Covid ar wahanol feysydd gwariant o fewn y cwmni, ni chafodd £1.57 miliwn o gyllid Craidd Cymru y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ei dynnu i lawr. Lle'r oeddem yn ysgwyddo gwariant cyfalaf, mae incwm o £1.278 miliwn (2020: £412,000) wedi'i ohirio i'r flwyddyn ariannol nesaf.

DATBLYGIADAU'R DYFODOL

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae CCDG wedi gweithredu mewn blwyddyn drosiannol ar gyfer 2020-21 fel diwedd y weledigaeth strategol tair blynedd o'r enw "Newid Bywydau". Mae Gyrfa Cymru wedi defnyddio'r flwyddyn i werthuso effaith a llwyddiant ei weledigaeth strategol tair blynedd ac mae wedi datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf o'r enw "Dyfodol Disglair 2021-26".

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Rydym wedi parhau i ddatblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd a werthfawrogrir gan gwsmeriaid a phartneriaid, uwchsgilio ein staff proffesiynol a gwneud arbedion effeithlonrwydd.

Mae'r cwmni'n parhau i weithredu mewn sefyllfa pandemig ond mae wedi dechrau agor y canolfannau gyrfaoedd tra'n parhau hefyd i gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid drwy ddulliau digidol yn ogystal ag wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Felly, bydd Gyrfa Cymru'n parhau i ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd hanfodol i bobl Cymru dros y ffôn a sianeli digidol yn 2021-22 a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddychwelyd i'r gwaith yn ddiogel mewn amgylchedd ysgol a swyddfa.

Mae Cynllun Busnes CCDG ar gyfer 2021-22 yn disgwyl i incwm Llywodraeth Cymru fod yn £29.12 miliwn. Fel y dangosir yn y tabl drosodd, mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau penodedig gwerth £10.32 miliwn.

Ffynhonnell Ariannu	£ miliwn
Llywodraeth Cymru – Craidd	18.80
Llywodraeth Cymru – Cymru'n Gweithio	10.28
Llywodraeth Cymru – prosiectau	0.04
Is-gyfanswm - Llywodraeth Cymru	29.12
Arian Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop	1.80
Incwm contractau eraill	0.29
Amcangyfrif o gyfanswm yr incwm 2021-22	31.21

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Ceir manylion Rheoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol ar dudalennau 17-18.

Y prif risgiau y mae CCDG yn eu hwynebu yw:

- Pandemig a pharhad busnes
- Rheoli llif arian parod,

Manylir ar y rhain isod:

Maes Risg	Prif Risg(au)
Risgiau gweithredol a strategol	• Methu â chyflawni'r llythyr cylch gwaith oherwydd y pandemig.
Risgiau Ariannol	• Rheoli llif arian parod oherwydd gostyngiad yn yr arian sydd ar gael. • Effaith y pandemig ar gyllid Llywodraeth Cymru.

AR RAN Y BWRDD:



Dr D Evans-Williams - Cadeirydd

Dyddiad: 13 Medi 2021

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwyr eu hadroddiad gyda Datganiadau Ariannol y cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae CCDG wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Gweinidogion Cymru yw'r unig aelod o CCDG. Mae'r cwmni wedi'i gyfyngu drwy warant gyda'r holl Gyfarwyddwyr yn cytuno i gyfrannu'r swm o £1 os bydd y cwmni'n cael ei ddirwyn i ben.

DIFIDENDAU

Ni chaiff unrhyw ddifidendau eu dosbarthu am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

DIGWYDDIADAU ERS DIWEDD Y FLWYDDYN

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn yn nodyn 17 i'r Datganiadau Ariannol.

CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr a ddangosir isod wedi bod yn y swydd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021:

Mr I Prys-Jones
Mrs E Richards
Mr R A Wright
Miss S Jones
Dr D Evans-Williams (Cadeirydd)
Yr Athro S Maguire
Mr D A Dowling
Miss E Harris
Dr T Begum
Mr D Hagendyk
Ms E Cassin
Dr S Dancey
Mr R Thomas
Mrs N J Lawrence

Mae newidiadau i'r Cyfarwyddwyr yn y swydd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Mr D A Dowling - ymddiswyddodd 3 Gorffennaf 2020
Miss S Jones - ymddiswyddodd 26 Awst 2020
Ms E Cassin – penodwyd 1 Medi 2020
Dr S Dancey – penodwyd 1 Medi 2020

Mae'r holl Gyfarwyddwyr, ac eithrio Mrs N J Lawrence, yn Gyfarwyddwyr anweithredol ac yn ddi-dâl. Yn ogystal â bod yn Gyfarwyddwr CCDG, mae Mrs N J Lawrence yn weithiwr cyflogedig gyda CCDG hefyd. Mae swydd y Cadeirydd yn derbyn tâl o £345 y dydd am fynychu cyfarfodydd neu weithgareddau eraill y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud â gwaith Gyrfa Cymru am hyd at 80 diwrnod y flwyddyn. Mae swydd Cadeiryddion y pwyllgorau yn derbyn tâl ar y gyfradd ddyddiol o £256 fesul pwyllgor hefyd.

BUSNES HYFYW A DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Wrth fabwysiadu'r sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes yn ogystal â phrif risgiau ac ansicrwydd y cwmni fel y nodir yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Yn dilyn trosglwyddo perchnogaeth i Lywodraeth Cymru, ar 1 Ebrill 2013, daeth CCDG yn gorff cyhoeddus, a ariannwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Drwy lythyr cylch gwaith a llythyr ariannu CCDG, mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi cael cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth referniw a chyfalaf ar lefel ddigonol i alluogi CCDG i barhau fel busnes hyfyw tan o leiaf 31 Mawrth 2022. Ar ôl gwneud ymholiadau ac ar ôl adolygu rhagolygon y cwmni, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a fyddai'n creu unrhyw amheuan ynghylch gallu CCDG i barhau mewn busnes dros y 12 mis nesaf. O ganlyniad, byddant yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

ASEDAU ANGHYFREDOL

Dangosir manylion asedau anghyfredol yn nodiadau 7 i 9 i'r datganiadau ariannol.

AMCANION A PHOLISIÂU RHEOLI RISG ARIANNOL

Mae'r prif risgiau ariannol ar gyfer CCDG yn ymwneud â rheoli llif arian parod a chyllidebu ac mae'r rhain yn cael eu cynnal ar y lefel risg uchaf ar ein cofrestr risg. Rydym yn cadw briff monitro manwl ar gyllidebau a llif arian parod drwy gydol y flwyddyn ariannol oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol. Cyllideb Graidd Llywodraeth Cymru a Chymru'n Gweithio ar gyfer 2020-21 oedd £27.98 miliwn, ac maent wedi cadarnhau lefel uwch o gyllid, sef £29.12 miliwn ar gyfer 2021-22. Nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â'n statws busnes hyfyw hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwybod am gyllid ar ôl mis Mawrth 2022 tan fis Rhagfyr 2021.

O ran rheoli llif arian parod, nid oes risg sylweddol o ran credyd yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaethom gynnal balans arian parod iach ar adnau tymor byr o £0.8 miliwn felly nid ystyrir bod credyd, hylifedd a llif arian parod yn risg berthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn monitro'r sefyllfa ariannol yn agos iawn i sicrhau ein bod yn cario digon o arian wrth gefn ymlaen ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022-23 oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol.

STAFF

Polisi Urddas a Pharch

Mae gan CCDG Bolisi Urddas a Pharch lle mae tegwch a chynhwysiant pob gweithiwr yn egwyddorion sylfaenol i'r cwmni. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein gweithwyr ac yn parchu gwahaniaethau unigol mewn amgylchedd gwaith cynhwysol. Mae gan bob gweithiwr hawl i weithle heb fwlio, aflonyddu neu erledigaeth. Mae gan weithwyr hawl i gael eu trin ag urddas, parch a chwarteisi, i brofi dim math o wahaniaethu ac i gael eu gwerthfawrogi am eu sgiliau a'u galluoedd. Rydym am barhau i ddenu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu cymunedau amrywiol, ac rydym wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu a chydymffurfio â'n dyletswyddau statudol. Ni fydd CCDG yn goddef unrhyw fath o ymddygiad annheg, gwahaniaethol mewn unrhyw agwedd ar fywyd gwaith unigolyn a bydd yn ymdrechu i greu diwylliant lle gall pawb ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn.

Ymgynghori â Gweithwyr

Mae CCDG yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnwys gweithwyr ac mae ganddynt gytundeb cydnabod gydag Unsain. Roedd y Rheolwyr ac Unsain yn cymryd rhan ragweithiol mewn hyfforddiant Partneriaeth a hyrwyddir gan TUC Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gwaith partneriaeth wedi'i roi ar waith a'i groesawu gan y ddwy ochr ac mae wedi arwain at welliant mewn cysylltiadau diwydiannol a chydweithio cynhyrchiol. Mae gweithwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a strategaeth y cwmni drwy sesiynau briffio personol, cyfarfodydd rheolaidd, e-bost a diweddariadau gan y Prif Weithredwr drwy ein cylchlythyr LINC a anfonir at yr holl staff.

Gall gweithwyr ryngweithio â'i gilydd, postio gwybodaeth am glybiau a grwpiau yn eu hardal a gallant gael mynediad at wybodaeth am ddigwyddiadau corfforaethol drwy ddefnyddio mewnwyd CCDG.

Polisi ar dalu Credydwy

Mae CCDG wedi ymrwymo i setlo anfonebau a hawliadau eraill am daliad yn brydlon. Yn achos nwyddau a gwasanaethau lle mae'r cyflenwad wedi'i gwblhau'n foddhaol, amcan y cwmni yw talu o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn yr anfoneb.

Adroddiad Amgylcheddol

Mae CCDG yn cydnabod bod ei ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd ac yn dymuno rheoli a lleihau'r rhain lle bynnag y bo modd. Mae ein strategaeth amgylcheddol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru. Er mwyn ein

helpu i gyflawni'r nod hwn, rydym wedi gweithredu Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd a archwiliwyd yn annibynnol. Manylir ar ein hegwyddorion cyffredinol yn ein polisi amgylcheddol ac fe'u gweithredir a'u monitro drwy ddefnyddio system rheoli'r amgylchedd.

Sut rydym yn rheoli'r broses

Nod CCDG yw ceisio gwelliant parhaus yn y broses a ddefnyddiwn i reoli ein heffaith amgylcheddol. Rydym wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n goruchwyllo gofynion monitro ac adrodd yn ein strwythur llywodraethu. Mae Pwyllgor Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol ar gyfer yr amgylchedd a bioamrywiaeth. Mae'r Tîm Gwyrdd yn gyfrifol am oruchwyllo'r gwaith o archwilio a chynhyrchu'r data monitro ac am sicrhau bod y penderfyniadau strategol ar gyfer y flwyddyn yn cael eu gweithredu.

Perfformiad Amgylcheddol

Oherwydd y pandemig, fe wnaethom gau ein holl swyddfeydd ym mis Mawrth 2020 ac mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gartref yn ystod y flwyddyn ariannol. Rydym yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch pryd y mae'n ddiogel i staff ddychwelyd i'r gwaith mewn ysgolion a swyddfeydd. Oherwydd gweithio gartref mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau wrth gymharu ffigurau amgylcheddol y llynedd ag eleni. Nid yw'r ffigurau'n ystyried yr ynni a ddefnyddir gan staff sy'n gweithio gartref. Felly, nid yw'r ffigurau a nodir yn adlewyrchu'r effaith wirioneddol ar allyriadau'r cwmnïau.


Buom yn llwyddiannus yn archwiliad y Ddraig Werdd gan gyflawni statws lefel 4, mae hyn yn golygu bod ein perfformiad amgylcheddol wedi'i ymwreiddio ar draws ein hystad o eiddo. Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i gyflawni'r statws lefel 5 uchel ei barch. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn datblygu cynllun i'n galluogi i fwrw ymlaen â'r nod hwn. Rydym yn cynnal adolygiad o'n harferion gwaith presennol a'n strategaeth safleoedd hefyd er mwyn dysgu gwersi o'r cyfnod clo.

Mae'r data amgylcheddol yn y tabl isod wedi'i gasglu o'r 26 swyddfa sydd o dan ein rheolaeth yn llawn a lle rydym yn derbyn anfonebau'n uniongyrchol gan y cyflenwr ynni, mae gan 19 o'r swyddfeydd hyn nwy wedi'i osod hefyd.


CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021


Dŵr (Litrau)




Trydan kWh



Nwy kWh



Nwyon tŷ gwydr CO2 tunnell



Milltiroedd Busnes



	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Dŵr (Litrau)	2,764,000	2,542,000	1,742,180
Milltiroedd Busnes	890,964	860,242	57,069
Trydan kWh	662,257	640,286	281,920
Nwy kWh	1,620,897	1,637,953	1,005,477
Nwyon tŷ gwydr CO2 tunnell	765	729	343
Costau ariannol	£	£	£
Nwy	31,662	30,011	21,438
Trydan	116,086	125,441	64,319
Dŵr	13,913	12,169	9,493

Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli'r defnydd o ynni ar draws ein swyddfeydd, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cau drwy gydol y cyfnod adrodd ariannol. Un cafeiat yw bod rhai o'r darlleniadau trydan yn seiliedig ar amcangyfrifon felly gallai'r ffigur hwn fod yn is na'r hyn a adroddwyd uchod. Mae darlleniadau nwy yn seiliedig ar y ffigurau gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn.

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Defnydd y pen – niferoedd staff	2018-2019	2019-2020	2020-2021
Nifer y staff yn seiliedig ar gyfanswm y nifer yn y flwyddyn	623	658	640
Dŵr (Litrau)	4,436	3,863	2,722
Milltiroedd Busnes	1,430	1,307	89
Trydan kWh	1,063	973	441
Nwy kWh	2,601	2,489	1,571
Nwyon tŷ gwydr CO2 tunnell	1.23	1.10	0.54

Mae'r gwelliannau mewn perfformiad a restrir uchod yn deillio'n llwyr o amgylchiadau o fewn y flwyddyn ariannol a byddant yn cynyddu yn y cymaryddion y flwyddyn nesaf pan fyddwn yn ailagor y swyddfeydd. Mae ein targedau ar gyfer 2021-22 wedi'u llywio gan bolisïau Llywodraeth Cymru. Ym mis Mawrth 2021 cymeradwyodd Senedd Cymru darged sero net ar gyfer 2050. Ystyr sero net yw cydbwysu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr â faint o nwyon sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer. Targed presennol Llywodraeth Cymru yw gostyngiad o 37% erbyn 2025. Dim ond newidiadau cyfyngedig y gallwn eu gwneud fel cwmni i helpu i gyrraedd y targed hwn, ond rydym wedi ymrwymo i osod map clir a fydd yn lleihau ein hallyriadau cyn belled ag y bo modd. Byddwn yn annog deialog agored ar y pwnc, drwy ofyn am syniadau newydd, a rhoi polisïau ar waith sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd gan gynnwys strategaethau caffael.

Byddwn yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth hefyd sy'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau cadwraeth gymunedol a chydymffurfiaeth â mentrau Llywodraeth Cymru, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, a hefyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cydnabod pwysigrwydd natur a'i bioamrywiaeth. Bydd gwella bioamrywiaeth yn ein swyddfeydd yn gwella lles staff drwy wella iechyd meddwl a chorfforol. Rydym yn gweithio tuag at darged Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn 2025 hefyd.

DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYFLWYNIAD

Fel y Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu) rwy'n bersonol gyfrifol am drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol CCDG.

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n cyflwyno'r holl ddatgeliadau am faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth sefydliad mewn un lle. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau a rheoli CCDG yn ystod y flwyddyn.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd CCDG yn gyfrifol am lywodraethu CCDG a chydymffurfio â'r cod llywodraethu corfforaethol. Rôl y Bwrdd yw bodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol ar waith a sicrhau trwof fi, fel Prif Weithredwr, fod y sefydliad yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dr D Evans-Williams, a hyd at 13 o Gyfarwyddwyr eraill a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cadeirydd yn swydd am dâl ac mae'r Prif Weithredwr yn Gyfarwyddwr hefyd. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn hon.

Mae pob Cyfarwyddwr, Aelod Cyfetholedig ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli'n llenwi ffurflen Datganiad Parti Cysylltiedig i sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei nodi. Cwblhawyd hyn ym mis Mawrth 2021. Atgoffir y Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Cyfetholedig i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Yna caiff unrhyw wrthdaro ei ddatgan yn y cofnodion ac nid yw'r Cyfarwyddwr neu'r Aelod Cyfetholedig yn cymryd rhan yn yr eitem honno ar yr agenda.

Penododd y Bwrdd dri Phwyllgor gyda'u Cylch Gorchwyl eu hunain i gyflawni ei gyfrifoldebau ac i gael y sicrwydd sy'n ofynnol sy'n dangos bod arferion llywodraethu da ar waith. Y Pwyllgorau yw:-



CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Dangosir presenoldeb y Cyfarwyddwyr yn y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn y tablau isod:

COFNOD AELODAETH A PHRESENOLDEB 2020-21

Cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Cyfetholedig

	10/06/20	19/08/20	25/11/20	03/03/21	Presenoldeb
Dr D Evans-Williams (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Mr R A Wright	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Mrs E Richards	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Mr I Prys-Jones	✓	✓	✓	x	3/4 75%
Miss E Harris	✓	✓	x	✓	3/4 75%
Yr Athro S Maguire	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Mr D A Dowling	x				0/4 0%
Dr T Begum	✓	✓	x	✓	3/4 75%
Mr D Hagendyk	✓	✓	x	✓	3/4 75%
Mr R Thomas	✓	✓	x	✓	3/4 75%
Ms E Cassin		✓	✓	✓	3/3 100%
Dr S Dancey		✓	✓	✓	3/3 100%
Prif Weithredwr	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Ms C Knowles*			x		0/1 0%
Ms S Price*				✓	1/1 100%
Mr A Smith*			✓	✓	2/2 100%

*Aelod Cyfetholedig

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Darperir holl gofnodion cyfarfod Pwyllgorau i'r Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn aelod Gweithredol o bob Pwyllgor.

Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg

	04/06/20	04/08/20	30/10/20	09/02/21	22/03/21	Presenoldeb
Mr I Prys-Jones (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓	✓	5/5 100%
Mr R A Wright	✓	✓	✓	✓	✓	5/5 100%
Mr R Thomas	✓	✓	✓	✓	✓	5/5 100%
Prif Weithredwr	✓	✓	✓	✓	✓	5/5 100%
Mr A Smith*			✓	✓	✓	3/3 100%

Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid				✓	✓	2/2 100%
Pennaeth Cyllid ac Ystadau	✓	✓	✓	✓	✓	5/5 100%
Archwilio Cymru (Archwilwyr Allanol)	✓		✓	✓		3/3 100%
TIAA (Archwilwyr Mewnol)	✓		✓	✓		3/3 100%

Pwyllgor Materion Pobl a Chydnabyddiaeth

	13/05/20	12/08/20	11/11/20	02/02/21	Presenoldeb
Miss E Harris (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Mrs E Richards	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Ms E Cassin			✓	✓	2/2 100%
Dr T Begum	✓	x	✓	✓	3/4 75%
Prif Weithredwr	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Ms C Knowles*			x		0/1 0%

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Cyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid				✓	1/1 100%
Pennaeth Datblygu Pobl	✓	✓	✓	✓	4/4 100%

Pwyllgor Perfformiad ac Effaith

	07/05/20	14/09/20	18/11/20	27/01/21	Presenoldeb
Mr D A Dowling (Cadeirydd)	✓				1/1 100%
Yr Athro S Maguire (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Dr S Dancey			x	x	0/2 0%
Mr D Hagendyk	✓	✓	x	✓	3/4 75%
Prif Weithredwr	✓	✓	x	✓	3/4 75%
Ms S Price*			✓	✓	2/2 100%

Cyfarwyddwr Cyflawni a Datblygu	✓	✓	✓	✓	4/4 100%
Pennaeth Ansawdd a Chynllunio	✓	✓	✓	✓	4/4 100%

*Aelod Cyfetholedig

Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri Chyfarwyddwr a chyfarfu bum gwaith yn y flwyddyn ariannol. Y Cylch Gorchwyl yw:

- i. Sicrhau bod gan y cwmni system gadarn o reolaeth ariannol, a phrosesau effeithiol ar gyfer nodi, asesu a rheoli risg gan ddefnyddio cofrestr risg;
- ii. Argymell penodi bancwyr, archwilwyr mewnol, archwilwyr allanol a chynghorwyr ariannol eraill, yn ôl y gofyn, yn dilyn y broses briodol;
- iii. Sefydlu gweithdrefn gadarn ar gyfer caffael, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian;
- iv. Sicrhau, yn unol â deddfwriaeth, fod gan y cwmni bolisiau effeithiol ar gyfer ymdrin ag afreoleidd-dra, twyll neu lwgrwobrwyo tybiedig;
- v. Adolygu iechyd ariannol y cwmni'n barhaus. Cynnwys monitro ac adolygu'r Cynllun Busnes a gwariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
- vi. Datblygu ac argymell cynllun busnes hyfyw, a chyllideb ar gyfer y cwmni bob blwyddyn;
- vii. Ystyried a gwneud argymhellion ar ddatganiadau ariannol, ac yn arbennig cyfrifon blyneddol y cwmni;
- viii. Ystyried materion a gyfeirir at y Pwyllgor gan y Bwrdd; ac
- ix. Adrodd i'r Bwrdd.

Pwyllgor Materion Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr a chyfarfu bedair gwaith yn y flwyddyn ariannol. Y Cylch Gorchwyl yw:

- i. Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn cymeradwyo unrhyw ddrafft cychwynnol ac ailddrafftiau dilynol o'r Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Cynllun(iau) Gweithredu;
- ii. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod strwythur cyflog priodol ac, yn amodol ar fforddiadwyedd, yn pennu lefelau cyflog y Prif Weithredwr;
- iii. Bydd y Pwyllgor yn craffu'n gadarn er mwyn sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cyflogaeth;
- iv. Y Pwyllgor fydd y pwyllgor arweiniol ar gyfer materion lechyd a Diogelwch ac Amrywiaeth;
- v. Bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion a gaiff eu cyfeirio ato gan y Bwrdd;
- vi. Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd ar bob mater sy'n ymwneud â chyflogaeth a lles staff CCDG, ac yn rhoi cyngor ar faterion priodol;
- vii. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn hyrwyddo ac yn cefnogi:
 - datblygiad polisiau cyflogaeth priodol, gan gynnwys y rhai ar gyfer penodi, telerau ac amodau, disgyblaeth, cwynion, gwobrwyo a chydabod gweithwyr;
 - datblygiad parhaus diwylliant a gwerthoedd y cwmni;
 - ymgysylltu a chynnwys gweithwyr; a
 - cyfathrebu mewnol effeithiol o fewn y sefydliad.

Pwyllgor Perfformiad ac Effaith

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri Chyfarwyddwr a chyfarfu bedair gwaith yn y flwyddyn ariannol. Y Cylch Gorchwyl yw:

- i. Cael trosolwg o swyddogaethau datblygu, darparu a chefnogi gwasanaethau;
- ii. Monitro, craffu a chynghori ar berfformiad y flwyddyn sy'n ymwneud ag ansawdd a maint a chynnydd yn erbyn y cynllun busnes;
- iii. Herio ac adolygu effaith y cwmni;
- iv. Craffu a monitro'r defnydd o adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid wrth lywio'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth (gan gynnwys TGCh) a strategaethau ymgysylltu;
- v. Hyrwyddo a chefnogi gwerth am arian, gan edrych ar ba wasanaethau i fuddsoddi adnoddau ynddynt er mwyn sicrhau elw da ar fuddsoddiad;
- vi. Cefnogi ac adolygu'r ffordd y mae'r cwmni'n darparu'r gwasanaethau drwy sianeli TG/ Digidol/ Marchnata;
- vii. Ystyried unrhyw faterion y gall y Bwrdd eu cyfeirio at y Pwyllgor; ac
- viii. Adrodd i'r Bwrdd.

Yr Uwch Dîm Rheoli

Mae'r strwythur Gweithredol newydd wedi'i ymwreiddio yn ystod y flwyddyn. Adolygwyd y strwythur Gweithredol o fewn yr Uwch Dîm Rheoli a chytunwyd y bydd gostyngiad o dri i ddau Gyfarwyddwr.

Mae'r tîm yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gynhadledd fideo i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol a gweithredol. Caiff adroddiad perfformiad CCDG ei gynhyrchu bob chwarter a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun busnes.

Data absenoldeb oherwydd salwch

Dros y deuddeg mis diwethaf, collodd y Cwmni 3.37% o ddiwrnodau gwaith cynhyrchol i absenoldeb oherwydd salwch (4.6% yn y cyfnod adrodd blaenorol). Mae 0.68% o'r rhain yn absenoldebau o lai nag 20 diwrnod. Mae'r gweddill yn absenoldeb tymor hir a bu sawl achos nodedig o salwch hirdymor iawn.

Rydym wedi defnyddio'r mentrau arfer gorau canlynol i reoli absenoldeb oherwydd salwch:

- Cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith ar ôl pob absenoldeb, adolygu gwaith papur ac yna Adnoddau Dynol yn bwrw golwg arno ar gyfer ansawdd cwblhau.
- Defnyddio'r ffactor Bradford i dynnu sylw at y gweithwyr hynny sydd â lefelau uchel o absenoldeb tymor byr fel bod ymdrechion yn cael eu targedu.
- Nodi unigolion ag absenoldebau sy'n fwy nag 19 diwrnod di-dor a'u cefnogi yn ôl i'r gwaith yn gynnar drwy gynnig trefniant dychwelyd yn raddol (gweithio rhan-amser am gyfnod adsefydlu byr).
- Defnyddio sbardunau sy'n ymwneud â nifer ac amllder absenoldeb tymor byr sy'n sbarduno camau gweithredu megis cyfarfodydd cwnsela anffurfiol a ffurfiol a rhybuddion o bosibl.
- Defnyddio atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol, lle gwelir patrymau uchel a chynyddol a rheoli ymddeoliadau oherwydd salwch.
- Atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol cynnar ar gyfer achosion o salwch meddwl.
- Gweithio gyda'r undeb llafur cydnabyddedig ar fentrau absenoldeb.
- Mae rheolwyr yn derbyn ystadegau absenoldeb bob mis i'w trafod gyda'u timau.
- Defnyddio cylchlythyr y Cwmni i hyrwyddo mentrau iechyd.
- Defnyddio gwasanaeth allanol i weithwyr roi gwybod am absenoldeb oherwydd salwch a monitro bod cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cwblhau. Mae hyn yn darparu data salwch cadarn iawn.
- Strategaethau iechyd a lles rhagweithiol sydd wedi arwain at ennill Gwobr Efydd y Safon Iechyd Corfforaethol.

Chwythu'r chwiban

Ers 2013, mae gan CCDG bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban yr ymgynghorwyd ac y cytunwyd arnynt gyda'r undeb llafur cydnabyddedig. Cyflwynwyd y polisi i'r holl weithwyr drwy gylchlythyr y Cwmni ac mae ar gael i unrhyw weithiwr, yn ddwyieithog, ar fewnwyd y Cwmni. Mae'r polisi'n cynghori gweithwyr ynghylch beth i'w wneud a phwy i adrodd iddo, yn fewnol ac yn allanol, os ydynt yn credu bod yna gamweddau y dylid eu datgelu i'r cyhoedd. Mae'r polisi'n ymdrin â hawliau gweithwyr hefyd ac yn eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth am y cyrff adrodd perthnasol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Rheoli Risg

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n ymwneud â gweithrediadau CCDG. Mae CCDG wedi cynnal asesiad cynhwysfawr o'r risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'r prif risgiau wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Risg CCDG sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion y cwmni a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus. Mae Cofrestr Risg CCDG yn nodi risgiau posibl sy'n deillio o weithrediad y cwmni. Caiff y risgiau hyn eu blaenoriaethu o fewn Matrics Risg a darperir proffil risg iddynt yn ôl effaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Caiff y sgoriau risg hyn eu hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg a chânt eu hadrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys rhestr o'r mesurau ataliol ar gyfer pob un o'r risgiau a nodwyd, yn ogystal â'r mesurau wrth gefn a'r camau gweithredu i leihau canlyniadau digwyddiad i lefel risg is ac i hwyluso adferiad os bydd unrhyw argyfwng yn codi. Nod y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni

polisiâu, nodau ac amcanion. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei rhoi.

Fel Prif Weithredwr, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan waith yr archwilyr mewnol penodedig, TIAA, a'r rheolwyr yn CCDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau ac argymhellion a wnaed gan yr archwilyr allanol yn eu llythyr rheoli ac archwilyr mewnol yn eu hadroddiadau. Mae'r archwilyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ac yn rhoi barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol CCDG, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r archwilyr mewnol yn gweithredu i safonau a ddiffinnir gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac yn cyflwyno eu hadroddiadau i'r Pwyllgor a'r cynnydd ar y rhaglen waith arfaethedig. Nododd y farn archwilio mewnol flynyddol fod gan Gyrfa Cymru brosesau rheoli, rheolaeth a llywodraethu risg rhesymol ac effeithiol ar waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn hon yn seiliedig yn llwyr ar y materion a ddaeth i'w sylw yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol ac nid yw'n farn ar bob elfen o brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Archwiliwyd y meysydd canlynol yn ystod y flwyddyn; cyflogres, cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol – Deddf yr Iaith Gymraeg, Rheoli Iechyd a Diogelwch a rheolaethau ariannol allweddol. Rhoddwyd sicrwydd sylweddol i bob rhan o'r adolygiadau archwilio ac eithrio un a oedd â sicrwydd cyfyngedig gan yr archwilyr mewnol. Gwnaed cynnydd sylweddol eisoes o ran gweithredu'r argymhellion a geir yn yr adroddiad sicrwydd cyfyngedig.

Pennir y Strategaeth Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac fe'i hadolygir gan y Bwrdd. Yn fwy cyffredinol, mae CCDG wedi ymrwmo i broses o ddatblygu a gwella'n barhaus, gan ddatblygu systemau mewn ymateb i unrhyw adolygiadau a datblygiadau perthnasol mewn arferion gorau yn y maes hwn. Mae cynlluniau gweithredu priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd ac i sicrhau gwelliant parhaus. Mae rheolwyr yn gweithredu argymhellion yr archwilyr mewnol ac argymhellion y llythyr rheoli archwilio allanol. Bydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn parhau i fonitro'r gweithgaredd hwn.

Yr wyf yn fodlon bod fframwaith llywodraethu cadarn a system rheolaethau mewnol ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Roeddent yn cefnogi cyflawni polisiâu, nodau ac amcanion CCDG; hwyluso arfer swyddogaethau CCDG yn effeithiol a diogelu arian ac asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n bersonol gyfrifol amdanynt. Mae'r materion llywodraethu a rheoli hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi, yn y Ddogfen Fframwaith a roddwyd i CCDG gan Lywodraeth Cymru.

Mae Covid 19 wedi achosi i'r cwmni fyfyrir ar y ffordd y mae'n gweithredu ar hyn o bryd. Roedd pob un o'n swyddfeydd ar gau ac mae'r staff wedi bod yn gweithio gartref. Mae hyn wedi golygu bod angen newidiadau i'n prosesau rheoli mewnol. Rydym wedi mabwysiadu dull digidol i ddarparu ateb i'r ffordd newydd o weithio. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2020 yn ôl y bwriad drwy fideo-gynadledda. Rydym wedi bod yn ffodus bod staff allweddol wedi parhau i weithio drwy gydol y pandemig sydd wedi golygu nad yw wedi arwain at unrhyw effaith ar y prosesau gwneud penderfyniadau. Byddai'r ddarpariaeth arferol yn cynnwys dull cyfunol o gyfweiliadau wyneb yn wyneb a chyfweiliadau dros y ffôn ond oherwydd y pandemig nid oedd hi'n bosibl cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ystod y flwyddyn ond rydym wedi cyflwyno cyfweiliadau cynhadledd fideo.

Mae ein rheolaethau mewnol wedi'u cynnal drwy gydol y cyfnod wrth i ni barhau i ddilyn canllawiau fframwaith Llywodraeth Cymru a'n rheoliadau ariannol ein hunain. Ni chafwyd effaith negyddol ar ein rheolaethau. Mae ein harchwiliadau mewnol wedi'u cwblhau ac rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r amserlen a nodwyd ar gyfer eleni. Mae'r pwyllgor Archwilio a Risg wedi cymryd diddordeb brwd iawn yn ein dulliau rheoli risg ac mae'r rhain wedi'u diweddarau o ran risgiau parhad busnes ac i fodloni ein modelau cyflenwi newydd. Mae'r brif effaith wedi bod ar ein set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ein llythyr cylch gwaith gan nad ydym yn debygol o gyflawni ein hamcanion ar gyfer eleni a bennwyd ym mis Chwefror 2020 ond rydym mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae ein llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd nifer y diswyddiadau ledled economi Cymru. Felly, gallaf adrodd nad yw'r pandemig wedi arwain at unrhyw broblemau'n ymwneud â rheolaethau mewnol na materion llywodraethu.



Nikki Lawrence
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu CCDG

DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi Datganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau, rhaid i'r cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o elw neu golled y cwmni am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- Ddethol polisiâu cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu rhesymol a darbodus;
- Datgan bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio ag IFRS;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y cwmni a datgelu sefyllfa ariannol y cwmni gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni hefyd ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

DATGANIAD YNGHYLCH DATGELU GWYBODAETH I ARCHWILWYR

I'r graddau y gŵyr y Cyfarwyddwyr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol (fel y'i diffinnir gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni, ac mae pob Cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel Cyfarwyddwr er mwyn gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

ARCHWILWYR

Penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lywodraeth Cymru fel archwilwyr allanol y Cwmni.

AR RAN Y BWRDD:



Dr D Evans-Williams - Cadeirydd

Dyddiad: 13 Medi 2021

Adroddiad archwilydd annibynnol i'r aelod o Career Choices Dewis Gyrfa Cyf Barn am y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Career Choices Dewis Gyrfa Cyf am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 sy'n cynnwys y Datganiad o Elw neu Golled, y Datganiad o Elw neu Golled ac Incwm Cynhwysfawr Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys ynghyd â'r Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y cwmni ar 31 Gorffennaf 2021 ac o'i ddiffyg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol gan gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006;
- wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail fy marn

Rwyf wedi cyflawni fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA) (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd arnynt. Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd yn ei gylch. Rwyf yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, am ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gefais drwy'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos i fod yn gamddatganiad perthnasol fel arall. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn casglu, ar sail fy ngwaith, bod y wybodaeth yma yn gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi'u paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion rwy'n adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi eu hadrodd i chi, pe bawn o'r farn:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chawsant ymweliad gan fy nhîm;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na wneir datgeliadau penodol o gydnyddiaeth cyfarwyddwyr a bennir yn ôl y gyfraith;
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oedd gan y cyfarwyddwyr hawl i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r drefn cwmnïau bach.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr ar dudalen 19, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn teimlo sy'n angenrheidiol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai y pennir ei fod yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu'n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (y DU) yn gallu canfod camddatganiad perthnasol bob tro. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn berthnasol os gellir disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerwyd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Career Choices Dewis Gyrfa Cyf sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Career Choices Dewis Gyrfa Cyf yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Career Choices Dewis Gyrfa Cyf yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Career Choices Dewis Gyrfa Cyf.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phroffion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r cyfarwyddwyr;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu'n arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Hefyd, fe wnes i gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob tîm archwilio ac roeddwn yn parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra'n effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Career Choices Dewis Gyrfa Cyf, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Rhoddir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Yr wyf yn gyfrifol am fynegi barn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylw i'w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
20 Medi 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrion hyn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. CCDG Career Choices Dewis Gyrfa Ltd sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

**DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

		2021 £'000	2020 £'000
	Nodia dau		
GWEITHREDIADAU PARHAUS			
Refeniw	2	28,560	30,249
Treuliau gweinyddol		(32,212)	(32,406)
Colled yn deillio eitemau cysylltiedig ag eiddo	1	<u>(50)</u>	<u>(54)</u>
GWEITHREDU (COLLED)		(3,702)	(2,211)
Costau Cyllid	4	(5,322)	(5,895)
Incwm cyllid	4	<u>4,414</u>	<u>4,967</u>
(COLLED) CYN TRETH		(4,610)	(3,139)
Cost treth	6	<u>(-)</u>	<u>(3)</u>
(COLLED) AM Y FLWYDDYN		<u>(4,610)</u>	<u>(3,142)</u>
(Colled) i'w phriodoli i: Perchnogion y cwmni		<u>(4,610)</u>	<u>(3,142)</u>

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i dudalen 69 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

**DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED AC INCWM CYNHWYSFAWR ARALL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

		2021 £'000	2020 £'000
	Nodiadau		
(COLLED) AM Y FLWYDDYN		(4,610)	(3,142)
INCWM CYNHWYSFAWR ARALL			
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw neu golled:			
(Colled) / Elw Actiwaraid ar y cynllun pensiwn	16	(4,909)	3,691
INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AM Y FLWYDDYN, YN NET O DRETH		<u>(4,909)</u>	<u>3,691</u>
CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN		<u>(9,519)</u>	<u>549</u>
Cyfanswm incwm cynhwysfawr y gellir ei briodoli i:			
Perchnogion y cwmni		<u>(9,519)</u>	<u>549</u>

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i dudalen 69 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol


CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF
BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

**DATGANIAD AM Y SEFYLLFA ARIANNOL
31 MAWRTH 2021**

	Nodia dau	2021 £'000	2020 £'000
ASEDAU			
ASEDAU ANGHYFREDOL			
Eiddo, offer a chyfarpar	7	2,502	2,433
Ased Hawl i Ddefnyddio	8	2,492	2,229
Asedau anniriaethol	9	1,176	607
		<u>6,170</u>	<u>5,269</u>
ASEDAU CYFREDOL			
Symiau masnach a symiau eraill a dderbyniwyd	10	2,727	2,744
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	11	829	1,834
		<u>3,556</u>	<u>4,578</u>
CYFANSWM ASEDAU		<u>9,726</u>	<u>9,847</u>
RHWYMEDIGAETHAU			
RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL			
Rhwymedigaeth pensiwn	16	47,226	38,937
Symiau masnach a symiau taladwy eraill		-	3
13			
Rhwymedigaethau prydles	8	1,918	1,594
		<u>49,144</u>	<u>40,534</u>
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			
Symiau masnach a symiau taladwy eraill	13	2,393	1,519
Rhwymedigaethau prydles 6,425	8	485	568
Treth sy'n daladwy	6	-	3
		<u>2,878</u>	<u>2,090</u>
CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU		<u>52,022</u>	<u>42,624</u>
CYFANSWM ASEDAU LLAI		(42,296)	(32,777)
RHWYMEDIGAETHAU		<u></u>	<u></u>
ECWITI			
Cronfa ailbrisio wrth gefn	12	241	241
Enillion a gadwyd	12	(42,537)	(33,018)
CYFANSWM ECWITI		<u>(42,296)</u>	<u>(32,777)</u>

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y cwmni hawl i gael ei eithrio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o dan adran 482 o'r Ddeddf hon (cwmnïau nad ydynt yn gwneud elw sy'n destun archwiliad sector cyhoeddus).

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 8 Medi 2021 a'u llofnodi ar ei ran gan:



Dr D Evans-Williams - Cadeirydd

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i dudalen 69 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF
BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

Rhif cwmni cofrestredig: 07442837

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i dudalen 69 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

**DATGANIAD AM NEWIDIADAU MEWN ECWITI
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

	Enillion a Gadwyd £'000	Cronfa Ailbrisio £'000	Cyfanswm Ecwiti £'000
Balans ar 1 Ebrill 2019	(33,567)	241	(33,326)
Newidiadau mewn Ecwiti			
Colled am y flwyddyn	(3,142)	-	(3,142)
Enillion Actiwaraid	<u>3,691</u>	<u>-</u>	<u>3,691</u>
Balans ar 31 Mawrth 2020	<u>(33,018)</u>	<u>241</u>	<u>(32,777)</u>
Newidiadau mewn Ecwiti			
Colled am y flwyddyn	(4,610)	-	(4,610)
(Colled) Actiwaraid	<u>(4,909)</u>	<u>-</u>	<u>(4,909)</u>
Balans ar 31 Mawrth 2021	<u>(42,537)</u>	<u>241</u>	<u>(42,296)</u>

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i dudalen 69 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

**DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

	Nodiadau	2021 £'000	2020 £'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian a gynhyrchir o weithrediadau		1,558	2,764
Llog a dalwyd	4	(5)	(5)
Treth a dalwyd	6	(-)	(3)
		<u>1,553</u>	<u>2,756</u>
Arian net o weithgareddau gweithredu			
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu asedau anniriaethol		(1,718)	(727)
Prynu eiddo, offer a chyfarpar		(226)	(51)
Llog a dderbyniwyd		<u>2</u>	<u>16</u>
		<u>(1,942)</u>	<u>(762)</u>
Arian net o weithgareddau buddsoddi			
Llif arian parod o weithgareddau cyllido			
Talu llog ar brydlesi		(31)	(32)
Talu'r prifswm ar brydlesi		<u>(585)</u>	<u>(605)</u>
		<u>(616)</u>	<u>(637)</u>
Arian net o weithgareddau cyllido			
Cynnydd / (Gostyngiad) net mewn arian a symiau cyfwerth ag arian parod		(1,005)	1,357
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	11	<u>1,834</u>	<u>477</u>
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	11	<u>829</u>	<u>1,834</u>

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i dudalen 69 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

**NODIADAU AM Y DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

**CYSONI'R (GOLLED) CYN TRETH GORFFORAETH Â'R ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD O
WEITHREDIADAU**

	Nodiadau	2021 £'000	2020 £'000
(Colled) cyn treth gorfforaeth a llog		(4,607)	(3,153)
Dibrisiant ac Amhariad ar Eiddo	7	157	193
Hawl i Ddefnyddio Dibrisiant Asedau	8	591	571
Amorteiddiad	9	1,147	1,186
Colled ar Waredu Asedau		2	-
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	4	5,317	5,890
Elw disgwylledig ar asedau'r cynllun pensiwn	4	(4,412)	(4,951)
		(1,805)	(264)
 (Cynnydd)/Gostyngiad yn y symiau masnach a symiau eraill a dderbyniwyd	10	17	1,089
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau		-	-
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill	13	871	(327)
Gwahaniaeth rhwng costau pensiwn a chyfraniadau arian parod		2,475	2,266
Arian parod a gynhyrchir o weithrediadau		<u>1,558</u>	<u>2,764</u>

31 Mawrth 2021

**NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

1. Polisiâu Cyfrifyddu

Sail y Paratoi

Paratowyd y Datganiadau Ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a dehongliadau'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) ac â'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n gymwys i gwmnïau sy'n adrodd o dan IFRS. Paratowyd y Datganiadau Ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbrisio asedau penodol. Mae'r polisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn gyson â rhai'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt ar waith eto ac nad ydynt wedi'u mabwysiadu'n gynnar gan y cwmni. Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn na fydd yr un ohonynt yn cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.

Gwariant

Seilir gwariant (sy'n cwmpasu costau gweinyddol/staff) ar sail croniadau ac fe'u dangosir yn gros o TAW.

Cydnabod refeniw

Cydnabyddir cyllid Llywodraeth Cymru yn unol ag IAS 20 – Cyfrifo ar gyfer Gofynion Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth – mae'r grant yn cyfateb yn y cyfnod perthnasol gyda'r gost y bwriedir iddynt wneud iawn amdani a bod unrhyw grant nas gwariwyd yn cael ei ohirio neu ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Bydd grantiau sy'n ymwneud ag asedau cyfalaf (diriaethol neu anniriaethol) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad am Elw a Chollod dros oes ddefnyddiol yr ased. Hyd nes y cydnabyddir y gost, caiff y grant ei drin fel incwm grant gohiriedig. Caiff grantiau Cyllid Cymdeithasol Ewrop eu trin yn wahanol gan ein bod yn cydnabod yr incwm hwn bob mis i ddigolledu'r costau cysylltiedig.

Rydym wedi cynnal adolygiad o incwm nad yw'n grant at ddibenion "IFRS15 – Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid" ac rydym ond yn codi anfonebau ac yn cydnabod refeniw pan fyddwn yn fodlon ein bod wedi bodloni'r rhwymedigaethau perfformiad o fewn y contract. Bydd anfonebau'n cael eu codi, naill ai'n fisol neu'n chwarterol, drwy gydol oes y contract unwaith y bydd rhwymedigaethau wedi'u bodloni.

Symiau masnach a symiau taladwy eraill

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u caffael gan gyflenwyr yn ystod busnes arferol yw symiau masnach taladwy. Dosberthir symiau masnach taladwy fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, fe'u cyflwynir fel rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol.

Symiau masnach a symiau eraill a dderbyniwyd

Mae symiau masnach a dderbyniwyd yn cynrychioli cost y gwasanaeth a ddarperir sydd wedi'i anfonebu i gwsmeriaid ac sy'n parhau i fod heb ei dalu. Mae incwm cronedig yn cynnwys prosiectau a ariennir gan Gymdeithas Ewrop yn bennaf. Cydnabyddir symiau masnach a dderbyniwyd ar gyfer rhwymedigaethau perfformiad sy'n cael eu bodloni dros amser yn raddol, gan fod y rhwymedigaeth perfformiad wedi'i bodloni ac yn llawn unwaith y bydd yr anfoneb yn ddyledus.

I ddechrau, cydnabyddir symiau a dderbyniwyd ar werth teg, ac wedyn cânt eu cario ar gost amorteiddiad llai lwfans colled ddisgwyliedig. Caiff balansau cyfrif eu dileu naill ai'n rhannol neu'n llawn os bernir bod adferiad yn annhebygol iawn. Cydnabyddir amhariadau a lwfans colled ddisgwyliedig yn y datganiad incwm o dan dreuliau gweithredu.

31 Mawrth 2021

**NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU - parhad

Darpariaethau

Mesurir darpariaethau yn ôl gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Gwneir darpariaeth os bodlonir y meini prawf canlynol :

- mae rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) wedi codi o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (y digwyddiad rhwymedigaethol),
- bod taliad yn debygol ('yn fwy tebygol na pheidio'), a
- bod modd amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth dadfeilio yn seiliedig ar y costau trwsio disgwylidig sydd eu hangen yn y dyfodol i adfer adeiladau ar brydles y CCDG i'w cyflwr teg ar ddiwedd eu telerau prydlesu priodol. Byddwn yn creu darpariaeth yn y cyfrifon pan fydd yr amodau canlynol wedi'u bodloni:

- Mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd swyddfa'n cau a bydd cymal terfynu'n cael ei alw i rym, ac mae'r landlord wedi cael yr hysbysiad i alw'r cymal terfynu i rym.
- Flwyddyn cyn y dyddiad y daw'r brydles i'w phen naturiol ac mae'r Bwrdd wedi cytuno na fydd y brydles yn cael ei hadnewyddu.

Rhwymedigaeth ddigwyddiadol

Bydd rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn cael ei chofnodi yn y cyfrifon os bodlonir y naill neu'r llall o'r amodau canlynol:

- a) rhwymedigaeth bosibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau yn unig gan ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o dan reolaeth yr endid; neu
- b) rhwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol ond nad yw'n cael ei chydnabod oherwydd:
 - i) nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau sy'n cynnwys manteision economaidd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth;
 - ii) ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda digon o ddibynadwyedd.

Byddwn yn datgelu yn y cyfrifon pan fydd rhwymedigaeth bosibl neu rhwymedigaeth bresennol a allai ond na fydd yn debygol o fod yn gofyn am all-lif adnoddau.

Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Yn y datganiad am lif arian parod, mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon a gedwir yn y banc.

Cronfeydd Wrth Gefn

Pan fo angen, gallai'r cwmni gael dwy gronfa wrth gefn. Yn gyntaf, Enillion a Gedwir, sef elw a cholledion cronrus y cwmni ac yn ail y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn sy'n cynnwys yr enillion a wnaed gan y cwmni sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol. Mae'r balans ar y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn yn cael ei ostwng pan fydd asedau ag enillion cronedig:

- yn cael eu hailbrisiu'n is neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;

31 Mawrth 2021

- neu eu gwaredu a bod yr enillion yn cael eu gwireddu.

**NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU - Parhad

Eiddo, offer a chyfarpar

Dosberthir eitemau unigol dros £2,500 sydd ag oes ddefnyddiol o fwy nag un cyfnod yn asedau sefydlog. Nid yw CCDG yn grwpio asedau ar gyfer cyfalafu.

Mae eiddo rhydd-ddaliad wedi'i rannu'n ddwy gydran, adeiladau a thir. Yn achos tir ac adeiladau, bydd ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol cysylltiedig yn cael eu cyfalafu hefyd. Dim ond yr elfen adeiladau sydd wedi'i dibrisio.

Mae IAS16 yn mynnu y dylid rhannu asedau'n rhannau cydrannol lle mae'r gost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Os yw rhannau cydrannol adeilad yn fwy, bydd y rhain yn dod yn endidau ar wahân o fewn y nodyn PPE a byddant yn cael eu dibrisio dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig y gydran. Darperir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig:

Eiddo Rhydd-ddaliad	Llinell syth dros 50 mlynedd
Eiddo Lesddaliad	Llai o 5 mlynedd neu weddill tymor y brydles
Gosodiadau a ffitiadau	5 mlynedd
Cyfarpar cyfrifiadurol	3 blynedd

Lesau IFRS16

Diffinnir tymor y brydles fel cyfnodau na ellir eu canslo o'r brydles. Mae'r prydlesi canlynol wedi'u heithrio o ofynion cydnabod IFRS16:

- prydlesi gyda thymor prydles o 12 mis neu lai ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw opsiynau prynu - gwneir y dewis hwn yn ôl dosbarth yr ased sylfaenol;
- prydlesi lle mae gan yr ased sylfaenol werth isel pan fydd yn newydd - gellir gwneud y dewis hwn fesul prydles. Rydym wedi gosod y trothwy gwerth isel ar £5,000.

Mae'r Cwmni wedi cydnabod atebolrwydd prydles a fesurwyd ar werth presennol y taliadau prydles sy'n weddill, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd fenthycia gynyddrannol ar 1 Ebrill 2020 o 1.26399%, a 0.91% ar gyfer pob prydles dyddiedig ar ôl 01 Ionawr 2021. Mae'r gwerth asedau hawl i ddefnyddio yn hafal i atebolrwydd y brydles. Cynhelir adolygiad o amhariad ar gyfer unrhyw ased prydles hawl i ddefnyddio sy'n dangos bod dangosyddion amhariad a cholled amhariad yn cael ei gydnabod yn erbyn unrhyw ased prydles hawl i ddefnyddio sydd ag amhariad.

Caiff asedau prydles eu cyfalafu ar ddyddiad cychwyn y brydles. Dyrennir pob taliad prydles rhwng atebolrwydd prydles a chost cyllid. Yn dilyn hynny, caiff yr asedau hawl i ddefnyddio eu mesur ar gost llai dibrisiant cronedig a bydd colledion a phrydlesi amhariad cronedig yn cael eu haddasu os oes unrhyw addasiadau i brydles. Bydd is-brydlesu gofod swyddfa yn cael ei drin fel prydles weithredu.

Mae'r asedau hawl i ddefnyddio'n cael eu dibrisio dros dymor y brydles ar sail llinell syth. Cydnabyddir bod taliadau sy'n gysylltiedig â phob prydles tymor byr a phrydlesi asedau gwerth isel yn gost yn yr elw a'r golled. Wrth gyfrifo'r ased hawl i ddefnyddio, nid ydym wedi cynnwys costau y disgwylir iddynt gael eu hysgwyo ar ddiwedd y brydles megis datgymalu'r ased neu adfer y safle i'w gyflwr arferol. Caiff y rhain

31 Mawrth 2021

eu trin yn unol â'n rheolau darpariaeth pan fydd y meini prawf yn cael eu bodloni neu fel cronïad pan fydd gennym sicrwydd o'r atebolrwydd sy'n codi. Rydym wedi gosod y costau uniongyrchol sy'n ymwneud â phrydlesi newydd fel treuliau (e.e. ffioedd cyfreithiol) ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ROU.

NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU - parhad

Mae'r Cwmni'n prydlesu gwahanol eiddo a mathau eraill o gyfarpar bach, er enghraifft, cyfrifiaduron a ffonau symudol. Caiff prydlesi eu trafod ar sail unigol ac maent yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol delerau ac amodau (gan gynnwys hawliau terfynu ac adnewyddu). Nid ydym yn cyfuno gwerthoedd prydles, mae pob prydles yn cael ei hystyried yn annibynnol ac yn dilyn ein hadolygiad dim ond eiddo ar brydles a oedd yn bodloni'r meini prawf sydd i'w dosbarthu fel gweithgaredd prydles o dan IFRS 16 Prydlesi.

Ceir crynodeb o'r prif nodweddion prydles isod:

Mae eiddo'n cael ei rentu am gyfnod o 1 i 10 mlynedd. Mae'r contractau'n cynnwys opsiwn i adnewyddu'r brydles. Fel arfer mae'r taliadau prydles yn cael eu pennu gydag opsiwn o gymal terfynu ar gyfer y prydlesi hirach hanner ffordd drwy dymor y brydles. Mae'r prydlesi hirach yn destun adolygiadau rhent bob 5 mlynedd.

Prisiadau

Mae Tir ac Adeiladau'n cael eu prisio ar sail gwerth teg, ar sail gwerth y farchnad agored at ddefnydd presennol, ac maent yn destun ailbrisiad proffesiynol annibynnol bob pum mlynedd yn unol â safonau prisio RICS. Cynhaliwyd yr ailbrisiad diweddaraf ym mis Mawrth 2018 gan Hiron, Morgans & Yapp, prisiwr cofrestredig RICS. Roedd y prisiwr yn tybio bod yr eiddo'n rhydd o ddiffygion strwythurol neu ddylunio, pydredd, pla a'u bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol angenrheidiol. Mae'r prisiwr wedi tybio hefyd bod yr eiddo'n rhydd o forgeisi a thaliadau. Ni ystyriwyd bod unrhyw faterion amgylcheddol yn effeithio'n sylweddol ar werth. Ym mhob blwyddyn ariannol rydym yn cynnal asesiad o'r holl asedau i benderfynu a oes angen unrhyw amhariadau. Nododd adolygiad o'r tir a'r adeiladau gan Hiron & Yapp at ddibenion amhariadau newid yng ngwerth rhai o'r eiddo rhydd-ddaliad gan arwain at dâl yn y Datganiad am Elw a Cholled gwerth £50,000 (2020: £54,000).

Asedau anniriaethol

Caiff yr holl asedau anniriaethol eu mesur ar gost gros ac mae amorteiddio'n dechrau pan nodir y dyddiad dechrau defnyddio. Bydd Trwyddedau Meddalwedd sydd â bywyd defnyddiol cyfyngedig yn cael eu hamorteiddio dros y bywyd hwnnw ar sail llinell syth. Bydd datblygiad meddalwedd yn cael ei amorteiddio dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd datblygiad gwe'r rhyngwyd yn cael ei amorteiddio dros ddwy flynedd. Yn ôl IAS38 dylai'r amcangyfrif gorau o fywyd gwefan fod yn fyr. Felly, ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â datblygu'r we, yn y flwyddyn gyntaf mae blwyddyn lawn o gostau wedi'u hamorteiddio wedi'u cynnwys yn y Datganiad am Elw a Cholled.

Mae costau amorteiddio a thâl amhariad asedau anniriaethol wedi'u cynnwys mewn treuliau gweinyddol o fewn y Datganiad am Elw a Cholled. Rydym wedi parhau i ddatgomiysu adrannau o'n hen wefan gan arwain at waredu costau datblygu gwefan o £564,000 (2020: £1.9 miliwn). Cafodd hyn effaith ymylol ar yr elw a'r golled gan fod y rhan fwyaf o gostau'r wefan wedi'u hamorteiddio'n llawn mewn cyfrifon blwyddyn flaenorol.

Trethiant

Mae'r trethi presennol yn seiliedig ar y canlyniadau a ddangosir yn y Datganiadau Ariannol ac fe'u cyfrifir yn unol â rheolau treth lleol, gan ddefnyddio cyfraddau treth oedd ar waith neu oedd ar waith yn sylweddol erbyn dyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol.

Costau buddion gweithwyr

Ar gyfer cynlluniau buddion diffiniedig, y symiau a briodolir i'r elw gweithredu yw'r costau gwasanaeth cyfredol ac enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau. Fe'u cynhwysir fel rhan o gostau staff. Cydnabyddir costau gwasanaeth yn y gorffennol ar unwaith yn y cyfrif elw a cholled os yw'r buddion wedi'u breinio. Os nad yw'r buddion wedi'u breinio ar unwaith, cydnabyddir y costau dros y cyfnod hyd nes y bydd breinio'n digwydd. Nodir cost y llog a'r enillion disgwylledig ar asedau ar wahân yn y Nodyn ar Incwm Cyllid Net ac fe'u cynhwysir mewn Costau Cyllid ac Incwm Cyllid yn y drefn honno yn y Datganiad am Elw neu Golled. Cydnabyddir enillion

31 Mawrth 2021

a cholledion actiwaraid ar unwaith yn y Datganiad am Elw a Cholled ac incwm cynhwysfawr arall. Ariennir cynlluniau buddion diffiniedig, gydag asedau'r cynllun yn cael eu cadw ar wahân i asedau'r sefydliadau sy'n aelodau mewn cronfeydd a weinyddir gan ymddiriedolwyr ar wahân. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraid yn defnyddio'r dull amcanwerth unedol, ac wedi eu disgowntio ar gyfradd gyfwerth â'r elw disgwylidig ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel gyda chyfnod cyfatebol i gyfnod rhwymedigaethau'r cynllun.

NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU - parhad

Cynhelir y prisiadau actiwaraid bob tair blynedd ac fe'u diweddarir ar bob dyddiad mantolen. Cyflwynir yr ased neu'r rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n deillio o hynny, yn net o'r dreth ohiriedig gysylltiedig, ar wahân ar ôl asedau net eraill ar wyneb y fantolen.

Defnyddio amcangyfrifon a dyfarniadau

Mae paratoi'r Datganiadau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni wneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisiâu a symiau a adroddwyd. Adolygir amcangyfrifon a dyfarniadau'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arno yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth am feysydd sylweddol o amcangyfrif a barn feirniadol wrth gymhwyso polisiâu cyfrifyddu sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y Datganiadau Ariannol wedi'i chynnwys yn y nodyn canlynol:

Nodyn 16 - Mae mesur cyfraniadau buddion diffiniedig yn dibynnu ar ddethol rhai tybiaethau sy'n cynnwys y gyfradd ddisgowntio, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r enillion disgwylidig ar asedau'r cynllun.

Meysydd arwyddocaol eraill o amcangyfrifon a barn feirniadol yw:-

- Mae ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar a phrisiau lesddaliadau'n seiliedig ar gyngor proffesiynol.
- Seiliwyd amcangyfrifon croniadau ar ddiwedd y flwyddyn ar waith a gwblhawyd neu nwyddau a dderbyniwyd ond nas anfonebwyd.

At ddibenion IFRS16 i gyfrifo'r gyfradd fenthycia gynyddrannol, byddwn yn defnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM mewn papurau PES. Wrth amcangyfrif tymor y brydles, lle mae gennym opsiwn i ymestyn y brydles, bydd y rheolwyr yn defnyddio eu barn i benderfynu a fyddai opsiwn yn rhesymol sicr o gael ei arfer cyn ei gynnwys yn y rhwymedigaethau prydlesu.

Busnes hyfyw

Cyfanswm cyllid Llywodraeth Cymru fydd £29.1 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer CCDG. Y prif reswm dros y cronfeydd wrth gefn negyddol yw'r diffyg pensiwn o £47.2 miliwn. Mae'r diffyg hwn yn amcangyfrif o'r diffyg disgwylidig o asedau dros rwymedigaethau yn y cronfeydd pensiwn. Ni ddisgwylir y bydd angen cyfraniadau pensiwn ychwanegol sylweddol yn y tymor byr ac felly barn y Cyfarwyddwyr yw bod y cwmni'n parhau i fod yn fusnes hyfyw.

2. REFENIW

	2021	2020
	£'000	£'000
Llywodraeth Cymru - Craidd	17,583	18,944
Llywodraeth Cymru - Cymru'n Gweithio	9,562	9,180
Llywodraeth Cymru - Arall	90	134

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

Prosiectau Cronfa		
Gymdeithasol - Sbardun	1,858	1,818
Ewrop		
Contractau eraill	369	431
Incwm gohiriedig	(1,278)	(412)
Incwm Gohiriedig a Ryddhawyd	376	154
	<u>28,560</u>	<u>30,249</u>

NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

3. GWEITHWYR A CHYFARWYDDWYR

Costau staff

	2021 £'000	2020 £'000
Cyflogau	17,893	16,849
Costau nawdd cymdeithasol	1,621	1,539
Costau pensiwn eraill	6,803	7,626
	<u>26,317</u>	<u>26,014</u>

Niferoedd staff

	2021	2020
Rheoli a Gweinyddu	88	86
Cyflenwi gwasanaethau	552	549
	<u>640</u>	<u>635</u>

Costau uwch weithwyr

	2021		2020	
	Cyfarwyddwy r £'000	Uwch Dîm Rheoli £'000	Cyfarwyddwy r £'000	Uwch Dîm Rheoli £'000
Buddion Gweithwyr Tymor Byr	139	118	126	169
Buddion ar Ôl-gyflogaeth	18	22	23	16
	<u>157</u>	<u>140</u>	<u>149</u>	<u>185</u>

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

Yn gynwysedig yn y costau Uwch Reolwyr uchod mae taliadau honorariwm i nifer o staff i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn cyflenwi'n rhannol yn rolau naill ai'r Cyfarwyddwr Datblygu Busnes neu Gyfarwyddwr Adnoddau a Thrawsnewid yn ystod y flwyddyn ariannol.

Roedd nifer y Cyfarwyddwyr yr oedd buddion ymddeol yn cronni iddynt fel a ganlyn:

	2021	2020
Cynllun Cyflog Terfynol	<u>1</u>	<u>1</u>

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

4. INCWM CYLLID NET

	2021 £'000	2020 £'000
Incwm cyllid:		
Llog cyfrif adneuo	2	16
Enillion disgwylidig ar asedau'r cynllun pensiwn	4,412	4,951
	<u>4,414</u>	<u>4,967</u>
Costau Cyllid:		
Llog banc	(5)	(5)
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	<u>(5,317)</u>	<u>(5,890)</u>
	<u>(5,322)</u>	<u>(5,895)</u>
Incwm cyllid net	<u>(908)</u>	<u>(928)</u>

5. (COLLED) CYN TRETH

Nodir (colled /cyn treth ar ôl codi tâl:

	2021 £'000	2020 £'000
Prydlesi gweithredu eraill	(7)	64
Dibrisiant	107	139
Amorteiddiad ac Amhariad	1,197	1,240
Cydnabyddiaeth archwilyr - Allanol	89	89
Mewnol	10	18
	<u>1,396</u>	<u>1,550</u>

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

31 Mawrth 2021

**NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

6. TRETH GORFFORAETHOL

Dadansoddiad o gostau treth

	2021			2020		
	Swm £'000	Cyfradd	Treth £'000	Swm £'000	Cyfradd	Treth £'000
Incwm nad oes treth yn ddyledus arno	28,560	0%	-	30,249	0%	-
Elw nad yw'n graidd	-	0%	-	-	0%	-
Llog	2	19%	<u>-</u>	16	19%	<u>3</u>
			<u>-</u>			<u>3</u>

Mae CCDG yn talu treth gorfforaeth ar log sy'n dderbyniadwy ac elw ar weithgareddau nad ydynt yn rhai craidd ar gyfradd treth gorfforaeth y DU o 19%.

Effeithiau treth sy'n ymwneud ag effeithiau incwm cynhwysfawr arall

	Gros £'000	2021 Treth £'000	NET £'000
(Colled) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	<u>(4,909)</u>	<u>-</u>	<u>(4,909)</u>

	Gros £'000	2020 Treth £'000	NET £'000
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	<u>3,691</u>	<u>-</u>	<u>3,691</u>

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

**NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

7. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

2020-21	Gwelliannau Lesddaliad £'000	Tir ac adeiladau £'000	Gosodiadau a Ffitiadau £'000	Cyfarpar Cyfrifiadurol £'000	Cyfansymiau £'000
COST NEU BRISIAD					
Ar 1 Ebrill 2020	406	2,384	107	296	3,193
Ychwanegiadau: yn ystod y flwyddyn	127	-	93	6	226
Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn	(61)	-	(7)	-	(68)
Amhariad yn ystod y flwyddyn	-	(50)	-	-	(50)
Ar 31 Mawrth 2021	<u>472</u>	<u>2,334</u>	<u>193</u>	<u>302</u>	<u>3,301</u>
DIBRISIANT					
Ar 1 Ebrill 2020	395	72	57	236	760
Cost am y flwyddyn	11	36	18	42	107
Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn	(61)	-	(7)	-	(68)
Ailbriso/Amhariad: yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	<u>345</u>	<u>108</u>	<u>68</u>	<u>278</u>	<u>799</u>
GWERTH LLYFR NET					
Ar 31 Mawrth 2021	<u>127</u>	<u>2,226</u>	<u>125</u>	<u>24</u>	<u>2,502</u>
Ar 31 Mawrth 2020	<u>11</u>	<u>2,312</u>	<u>50</u>	<u>60</u>	<u>2,433</u>

Nodiadau'n ymwneud â PPE:-

Nid oedd unrhyw asedau wedi'u cadw i'w gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwerth llyfr gros asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn sy'n dal i gael eu defnyddio yw £2,476

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

**NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad
AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

7. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

2019-20	Gwelliannau Lesddaliad £'000	Tir ac adeiladau £'000	Gosodiadau a Ffitiadau £'000	Cyfarpar Cyfrifiadurol £'000	Cyfansymiau £'000
COST NEU BRISIAD					
Ar 1 Ebrill 2019	406	2,438	73	279	3,196
Ychwanegiadau: yn ystod y flwyddyn	-	-	34	17	51
Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	-
Amhariad yn ystod y flwyddyn	-	(54)	-	-	(54)
Ailbrisiad yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2020	<u>406</u>	<u>2,384</u>	<u>107</u>	<u>296</u>	<u>3,193</u>
	-				
DIBRISIANT					
Ar 1 Ebrill 2019	351	38	41	191	621
Cost am y flwyddyn	44	34	16	45	139
Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	-
Ailbrisiad/Amhariad yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2020	<u>395</u>	<u>72</u>	<u>57</u>	<u>236</u>	<u>760</u>
GWERTH LLYFR NET					
Ar 31 Mawrth 2020	<u>11</u>	<u>2,312</u>	<u>50</u>	<u>60</u>	<u>2,433</u>
Ar 31 Mawrth 2019	<u>55</u>	<u>2,400</u>	<u>32</u>	<u>88</u>	<u>2,575</u>

Nodiadau'n ymwneud â PPE:-

Nid oedd unrhyw asedau wedi'u cadw i'w gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwerth llyfr gros asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn sy'n dal i gael eu defnyddio yw £2,537.

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

31 Mawrth 2021

NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL - parhad AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

8. PRYDLESAU IFRS16
